# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Santes Helen

Dyddiad yr arolygiad: 26/01/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Santes Helen yn ysgol gynhwysol a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith dyddiol. Mae ethos yr ysgol, dan arwyddair 'Câr dy gymydog', yn meithrin amgylchedd parchus a chefnogol, ac mae staff yn darparu gofal cryf i ddisgyblion a'u teuluoedd. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau dros amser. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn adnabod nac yn mynd i'r afael â'r diffygion yn safon yr addysgu mewn llawer o wersi.

Mae athrawon yn darparu ychydig o weithgareddau priodol sy'n cysylltu â themâu tymhorol ac yn cael eu cyfoethogi gan ymweliadau lleol. Mae medrau darllen a mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn ddigon cydlynus na chynhwysfawr i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd llawn yn eu medrau ysgrifennu, rhifedd a digidol dros amser. Yn ogystal, nid yw llawer o'r gweithgareddau dysgu yn ennyn diddordeb y disgyblion yn ddigon llwyddiannus.

Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy fodelu iaith yn addas. Er hyn, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd cadarn o'r iaith wrth weithio a chymdeithasu â'i gilydd. Yn ddiweddar, mae staff wedi canolbwyntio ar feithrin annibyniaeth disgyblion, ond nid yw lefel yr her na chyflymder llawer o'r gwersi yn ymateb i anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai uwch eu gallu.

Mae'r pennaeth yn arwain gydag ymrwymiad cryf, ac mae llywodraethwyr yn gefnogol. Er hyn, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n ddigon strategol i arwain y gwelliannau angenrheidiol. Nid yw deilliannau'r prosesau hunanwerthuso yn ddigon dibynadwy i adnabod yr agweddau mwyaf pwysig i'w gwella, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, medrau disgyblion, a datblygiad cwricwlwm ysgogol a chynhwysfawr.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Ymateb i'r pryder diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella effeithiolrwydd arweinwyr yn enwedig wrth hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

A3 Sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol yn y cwricwlwm a'r addysgu

A4 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'r ystod lawn o fedrau

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2026